# PWYLLGOR CRAFFU CYMUNEDAU AC ADFYWIO

Dydd Iau, 17 Rhagfyr 2020

**YN BRESENNOL:** Y Cynghorydd F. Akhtar (Cadeirydd)

**Y Cynghorwyr:**
F. Akhtar, D.M. Cundy (yn lle S. Matthews), C.A. Davies, W.R.A. Davies, H.L. Davies, R.E. Evans, S.J.G. Gilasbey, B.W. Jones, H.I. Jones, M.J.A. Lewis (yn lle G.B. Thomas), H.B. Shepardson a/ac D. Thomas

**Hefyd yn bresennol:**
Y Cynghorwyr P. Hughes-Griffiths, Aelod y Bwrdd Gweithredol dros Diwylliant, Chwaraeon a Thwristiaeth
L.M. Stephens, Dirprwy Arweinydd y Cyngor

**Yr oedd y swyddogion canlynol yn gwasanaethu yn y cyfarfod:**
L. Quelch, Y Pennaeth Cynllunio
I. Jones, Pennaeth Hamdden
J. Jones, Rheolwr Eiddo a Phrosiectau Mawr
M. Bull, Rheolwr Rhanbarthol - Datblygu Economaidd
I.R. Llewelyn, Rheolwr Blaen-gynllunio
N Thomas, Uwch Reolwr Hamdden Awyr Agored
M. Evans Thomas, Prif Swyddog Gwasanaethau Democrataidd
S. Rees, Cyfieithydd Ar Y Pryd
J. Corner, Swyddog Technegol
E. Bryer, Swyddog Gwasanaethau Democrataidd
R. Lloyd, Swyddog Gwasanaethau Democrataidd
K. Thomas, Swyddog Gwasanaethau Democrataidd

**Rhith-Gyfarfod -. - 10.00 yb - 12.15 yp**

## 1. YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB

Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb gan y Cynghorwyr S. Matthews a G.B. Thomas.

## 2. DATGANIADAU O FUDDIANNAU PERSONOL GAN GYNNWYS UNRHYW CHWIPIAU PLEIDIAU A RODDIR MEWN YMATEB I UNRHYW EITEM AR YR AGENDA

Ni chafwyd dim datganiadau ynghylch chwip waharddedig.

Ni ddatganwyd unrhyw fuddiannau personol.

## 3. CWESTIYNAU GAN Y CYHOEDD (NID OEDD DIM WEDI DOD I LAW)

Nid oedd cwestiynau gan y cyhoedd wedi dod i law.

## 4. GORCHMYNION DATBLYGU LLEOL CANOL TREF CAERFYRDDIN A CHANOL TREF RHYDAMAN

Cafodd y Pwyllgor adroddiad a gyflwynwyd gan yr Aelod o'r Bwrdd Gweithredol - Dirprwy Arweinydd (sydd â chyfrifoldeb am y Gwasanaethau Cynllunio) ynghylch cynigion y Cyngor (fel y cytunwyd arnynt yn ei gyfarfod ar 9 Rhagfyr 2020) i gyflwyno Cynlluniau Datblygu Lleol ar gyfer canol tref Caerfyrddin a chanol tref Rhydaman. Roedd yr adroddiad yn manylu ar y rôl bosibl y gallai Gorchmynion Datblygu Lleol ei chwarae fel rhan o gynigion adfywio ehangach yng nghyd-destun Canol y Dref, yn enwedig o ran Caerfyrddin a Rhydaman wrth gefnogi'r Fenter Lleoedd Llewyrchus a sicrhau eu bod yn gallu gwrthsefyll effeithiau economaidd COVID-19. Roedd y cynigion hefyd yn rhoi sylw dyledus i Gynllun Adfer Corfforaethol y Cyngor a Chanllawiau Cynllunio Llywodraeth Cymru – 'Adeiladu Lleoedd Gwell'.

Nodwyd bod Gorchymyn Datblygu Lleol yn rhoi cyfle i Awdurdod Cynllunio Lleol symleiddio'r broses gynllunio drwy ddileu'r angen i ddatblygwyr/ymgeiswyr gyflwyno cais cynllunio i'r Awdurdod ac i gyflwyno cynigion datblygu fel cais am Orchymyn Datblygu Lleol yn lle cais cynllunio, gan ganiatáu i awdurdod weithredu'n rhagweithiol mewn ymateb i amgylchiadau lleol penodol yn ei ardal ddaearyddol. Fodd bynnag, pe bai angen cyflwyno cais cynllunio ffurfiol, byddai'n rhaid cyflwyno hwnnw fel ag y mae ar hyn o bryd. Cadarnhawyd ymhellach fod gwaith ar adeiladau rhestredig wedi'i eithrio o'r Gorchmynion. Byddai'r cynnig bellach yn destun cyfnod ymgynghori o 6 wythnos ac, wedi hynny, byddai'n cael ei gyflwyno i'r Cyngor i ystyried yr ymatebion a ddaeth i law ac a ddylid bwrw ymlaen i gyflwyno'r Gorchmynion.

Rhoddwyd sylw i'r materion canlynol wrth drafod yr adroddiad:-

- Cyfeiriwyd at y Gorchymyn Datblygu Lleol presennol ar gyfer canol tref Llanelli a pha mor effeithiol y bu hynny wrth adfywio canol y dref.

  Dywedodd yr Aelod o'r Bwrdd Gweithredol, er bod y Gorchymyn hwnnw'n ymgorffori gwahanol agweddau o gymharu â'r rhai a gynigiwyd ar gyfer Caerfyrddin a Rhydaman (gan gynnwys y gofyniad i baratoi asesiad perygl llifogydd), fod y manteision yn dechrau dod i'r amlwg. Dywedodd fod gwersi a ddysgwyd o’i gyflwyno yn cael eu rhoi ar waith yn y Gorchmynion Datblygu Lleol arfaethedig ar gyfer Caerfyrddin a Rhydaman.

- Cyfeiriwyd at gynigion adfywio'r Cyngor a gwnaed y sylw, er eu bod yn cael eu croesawu, fod un elfen yr oedd angen mynd i'r afael â hi i hyrwyddo adfywio sef lefel yr Ardrethi Busnes a'r rhwystr y gallent ei greu i wella adfywio yn y Sir.
- Gofynnwyd am eglurhad ynghylch y datganiad ar dudalen 17, paragraff A1.4 o'r adroddiad - nad oedd rhwymedigaethau cynllunio Adran 106 yn ofynnol o dan Orchymyn Datblygu Lleol, ac a oedd hynny'n rhyddhau datblygwyr o wneud cyfraniadau o'r fath.

  Dywedodd y Rheolwr Blaen-gynllunio mai pwrpas y Gorchymyn Datblygu Lleol oedd bod yn ysgogiad i annog newid a deinamigrwydd i hyrwyddo datblygiad o fewn y terfynau ac y gallai'r gofyniad am Gytundeb Adran 106 fod yn rhwystr i ddatblygwyr posibl. Fodd bynnag, byddai'r Gorchymyn yn cael ei fonitro'n barhaus i asesu ei effeithiolrwydd, fel sy'n ofynnol o dan ddeddfwriaeth a gellid ei newid o fewn cyfnod o 21-28 diwrnod petai amgylchiadau yn gofyn am hynny.

- Cyfeiriwyd at yr amser yr oedd y Gorchymyn Datblygu Lleol wedi bod ar waith yng nghanol tref Llanelli ac a ellid darparu enghreifftiau o ddatblygiadau a wnaed ac a oeddent wedi cael eu harwain yn breifat neu'n gyhoeddus.

  Cadarnhaodd yr Aelod o'r Bwrdd Gweithredol eu bod wedi cael eu harwain yn breifat a'u bod yn cael eu cynorthwyo trwy ddynodi canol y dref yn Ardal Gwella Busnes.

  Dywedodd y Rheolwr Blaen-gynllunio fod y cynllun wedi cymryd peth amser i'w roi ar waith yn Llanelli ond hyd yma, roedd 12 cais wedi dod i law a oedd yn bodloni gofynion y Gorchymyn ac roedd gwaith ar ddau gynllun wedi dechrau. Roedd un o'r ceisiadau'n cynnwys newid llawr uchaf eiddo at ddefnydd preswyl. Wrth i ragor o'r ceisiadau hyn gael eu rhoi ar waith byddai'r effaith ar ganol y dref yn dod yn fwy amlwg a byddai nodau'r Gorchymyn yn cael eu cyflawni, sef cyflwyno amgylchedd byw yng nghanol y dref ynghyd ag amrywiaeth o weithgareddau.

  Nodwyd bod adroddiad monitro yn cael ei baratoi ynghylch blwyddyn gyntaf y Gorchymyn a fyddai'n cael ei gyflwyno i'r Cyngor a'r Pwyllgor Craffu maes o law.
- Mewn ymateb i gwestiwn ynghylch effaith pandemig Covid-19 ar yr economi, dywedwyd wrth y Pwyllgor fod y Gorchymyn Datblygu Lleol yn galluogi'r Awdurdod i fod yn fwy ystwyth ac ymatebol i amgylchiadau newidiol a bod yr un peth yn wir yn achos datblygwyr. Er y gallai effaith Covid-19 bara am gyfnod sylweddol, roedd angen i ymagwedd yr Awdurdod at adfywio fod yn fwy hyblyg wrth i'w ddealltwriaeth o amgylchiadau newidiol ddatblygu.
- Mewn ymateb i gwestiwn ynghylch effaith bosibl y Gorchymyn Datblygu Lleol ar adeiladau hanesyddol, cadarnhawyd ei fod yn berthnasol i drefniadau mewnol yn unig ac na fyddai'r ffasadau allanol yn newid.
- Cadarnhawyd y byddai cyfnod cychwynnol y Gorchmynion Datblygu Lleol ar gyfer canol tref Caerfyrddin a chanol tref Rhydaman yn para am 18 mis er mwyn cyd-fynd â'r amserlen o ran mabwysiadu'r Cynllun Datblygu Lleol Diwygiedig. Fodd bynnag, gellir lleihau neu ymestyn y cyfnod hwnnw yn ôl y cynnydd a wnaed o ran mabwysiadu'r Cynllun yn 2022.

**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL dderbyn yr adroddiad**

## 5. CYNLLUN DATBLYGU LLEOL DIWYGIEDIG SIR GAERFYRDDIN (2018- 2033) SYLWADAU A OEDD WEDI DOD I LAW A NEWIDIADAU PENODOL

Cafodd y Pwyllgor adroddiad a gyflwynwyd gan yr Aelod o'r Bwrdd Gweithredol - Dirprwy Arweinydd (sydd â chyfrifoldeb am y Gwasanaethau Cynllunio) ynghylch paratoi Cynllun Datblygu Lleol Diwygiedig (newydd) ar gyfer Sir Gaerfyrddin yn unol â phenderfyniad y Cyngor ar 10 Ionawr, 2018. Dywedodd fod yr adroddiad presennol yn manylu ar yr ymatebion a ddaeth i law yn dilyn y broses ymgynghori ffurfiol a'i fod yn ceisio nodi cyfres o Newidiadau â Ffocws arfaethedig i'r argymhellion a ddaeth i law ynghyd â'r rhai a allai fod wedi dod i'r amlwg o ganlyniad i newidiadau i ddeddfwriaeth, canllawiau, tystiolaeth neu, er mwyn rhoi eglurder ac ystyr.

Rhoddwyd sylw i'r materion canlynol wrth drafod yr adroddiad:-

- Mewn ymateb i gwestiwn ynghylch effeithiau posibl Covid-19 ar gymunedau a'r ffordd o weithio, dywedodd yr Aelod o'r Bwrdd Gweithredol fod y broses o baratoi'r Cynllun wedi monitro newidiadau yn barhaus a'r effeithiau y gallent eu cael, er enghraifft, ar y lefel bosibl o bobl sy'n mudo i'r sir gan gredu bod Sir Gaerfyrddin yn lle mwy diogel i fyw. Yn ogystal, byddai angen monitro effaith gweithio gartref wrth i fwy o bobl wneud hynny, er enghraifft, i asesu a oedd angen darparu mannau allanol o fewn datblygiadau i bobl gael seibiant o'r cartref ac i hyrwyddo ymarfer corff yn yr awyr agored. Byddai angen asesu'r effaith ar fynediad at feddygfeydd a chymorth y GIG hefyd.
- O ran y cynnydd sydd wedi'i wneud i fabwysiadu'r Cynllun, dywedwyd bod disgwyl iddo gael ei gyflwyno i'w archwilio'n annibynnol ym mis Mai 2021 a bod disgwyl i'r archwiliad cyhoeddus ddechrau'n ffurfiol ym mis Gorffennaf 2021 gyda Cyfarfod y Rhagwrandawiad. Roedd cais hefyd wedi cael ei wneud bod gan yr Arolygydd penodedig ddealltwriaeth o Sir Gaerfyrddin.
- Cyfeiriwyd at statws y tir sydd wedi'i gynnwys yn y Cynllun Datblygu Lleol presennol ac a ellid ei dynnu o'r Cynllun Datblygu Lleol diwygiedig, er enghraifft, pe bai caniatâd cynllunio wedi'i wrthod.

  Dywedodd y Rheolwr Blaen-gynllunio fod potensial i'r sefyllfa honno ddigwydd gan fod pwyslais y Cynllun ar a ellid cyflawni prosiect. Fodd bynnag, gan fod sylwadau yn cyd-fynd â phob darn o dir a gyflwynwyd i'w gynnwys yn y Cynllun Diwygiedig, byddai'r rheiny'n cael eu cyflwyno i'r Arolygydd iddo ystyried eu cynnwys neu beidio. Byddai'r Cynllun hefyd yn cael ei archwilio'n gyhoeddus a byddai'r cyhoedd/datblygwyr yn cael cyfle i gyflwyno sylwadau i'r Arolygydd.

**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL dderbyn yr adroddiad**

## 6. CANOLFAN ADDYSG AWYR AGORED PENTYWYN

Cafodd y Pwyllgor adroddiad diweddaru a gyflwynwyd gan yr Aelod o'r Bwrdd Gweithredol sydd â chyfrifoldeb am Ddiwylliant, Chwaraeon a Thwristiaeth (ynghyd â chyflwyniad PowerPoint) ynghylch y materion allweddol sy'n effeithio ar Ganolfan Addysg Awyr Agored Pentywyn ac awgrymodd yr adroddiad ffyrdd ymlaen o ran darparu addysg awyr agored o ansawdd uchel yn Sir Gaerfyrddin.

Nodwyd bod y cyfleuster presennol yn hen a bod angen buddsoddiad cyfalaf sylweddol o oddeutu £5m i ddarparu cyfleuster newydd, a hynny ar adeg heriol lle mae gofynion cynyddol sy'n cystadlu yn erbyn ei gilydd hefyd mewn perthynas â rhaglen gyfalaf y Cyngor. O ganlyniad i'r ffactorau hynny, roedd ystyriaeth yn cael ei rhoi i ffyrdd eraill o ddarparu gwasanaeth a allai, er enghraifft, gynnwys lleihau maint y cyfleuster presennol, defnyddio adeiladau/cyfleusterau eraill yn y sir a darparu gwasanaeth symudol. Felly, sefydlwyd Fforwm Addysg Awyr Agored, sy'n cynnwys cynrychiolwyr o sefydliadau hamdden, addysg ac ysgolion, i nodi'r opsiynau o ran darparu gwasanaeth yn y dyfodol.

Rhoddwyd sylw i'r materion canlynol wrth drafod yr adroddiad:-

- Cyfeiriodd y Pwyllgor yn unfrydol at werth y cyfleuster presennol ym Mhentywyn i'r Sir gyfan ac at y profiad y mae'n ei roi i blant ysgol. Roedd y Pwyllgor yn cefnogi'n llwyr bod y cyfleuster yn barhaus a bod angen nodi

cyfalaf a ffynonellau cyllid eraill i sicrhau'r ddarpariaeth ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol.

Cadarnhaodd y Pennaeth Hamdden fod darpariaeth y ganolfan yn y dyfodol yn heriol o ystyried yr hen adeiladau, tanfuddsoddi dros y blynyddoedd a gofynion ar raglen gyfalaf y Cyngor. Fodd bynnag, dywedodd fod gwariant refeniw o £80k y flwyddyn yn cael ei wario ar gynnal a chadw'r cyfleuster ynghyd â chymhorthdal gweithredu ychwanegol o £160k y flwyddyn. O ystyried y gost sylweddol i ailadeiladu'r cyfleuster, roedd angen i'r Awdurdod fabwysiadu ymagwedd fwy hyblyg at ddyfodol darparu addysg awyr agored, gan gadw ychydig o ddarpariaeth sylfaen ym Mhentywyn.

- Mewn ymateb i gwestiwn ynghylch pwysigrwydd hamdden i iechyd plant ifanc, cadarnhaodd y Pennaeth Hamdden fod darparu cyfleusterau hamdden awyr agored gan yr Awdurdod, fel yr un ym Mhentywyn, yn fuddiol iawn i lesiant meddyliol a chorfforol plant ifanc a bod yr Awdurdod wedi gwario'n sylweddol ar ei bortffolio hamdden yn ystod y blynyddoedd diwethaf. Fodd bynnag, oherwydd y sefyllfa bresennol ym Mhentywyn a'r gwahanol ofynion ar y rhaglen gyfalaf, roedd yn rhaid ystyried ffyrdd eraill o ddarparu'r gwasanaeth drwy ryw fath o fuddsoddiad cyfalaf o bosib.
- Cyfeiriwyd at effaith Covid-19 ar weithrediad y ganolfan ac at y ffaith y byddai cyfleusterau hamdden awyr agored, megis Canolfan Pentywyn, yn ailagor rywbryd yn y dyfodol. Er bod yr amcangyfrif o'r costau adnewyddu cyfalaf o £5m yn sylweddol, mynegwyd y farn bod plant yn cael budd mawr o'r ganolfan. Felly gofynnwyd a ellid gwrthbwyso costau cynnal y ganolfan yn rhannol trwy gyflwyno elfen fasnachol pan nad oedd yn cael ei defnyddio gan ysgolion, er enghraifft, yn ystod gwyliau ysgol, fel y digwyddodd yn y sector prifysgolion.
  Derbyniodd yr Aelod o'r Bwrdd Gweithredol y sylwadau a wnaed ond pwysleisiodd fod y cyd-destun economaidd presennol yn ei gwneud yn ofynnol i'r Awdurdod edrych i'r dyfodol o ran sut y gellid/dylid darparu'r gwasanaeth yn y dyfodol ac roedd wedi sefydlu Fforwm i ystyried y ddarpariaeth honno.

  Cadarnhaodd y Pennaeth Hamdden mai diben y Fforwm oedd gwerthuso darpariaeth addysg awyr agored yn y sir yn y dyfodol a bod trafodaeth y Pwyllgor y diwrnod hwnnw yn rhan o'r broses ymgynghori i helpu i lywio'r broses o wneud penderfyniadau. Cyfeiriodd at effaith Covid-19 ar y sector darpariaeth hamdden awyr agored preifat, a allai arwain at beidio ag ailagor nifer o gyfleusterau, ac roedd yn gobeithio y gallai'r Awdurdod barhau i ddarparu cyfleusterau o'r fath naill ai ar y safle ym Mhentywyn neu drwy ffyrdd eraill.
- Mewn ymateb i gwestiwn ynghylch a ellid gwneud gwaith gwella i'r ganolfan tra ei bod ar gau ar hyn o bryd, dywedodd yr Aelod o'r Bwrdd Gweithredol, yn anffodus, gan fod rhaglen gyfalaf y Cyngor wedi'i hymrwymo'n llawn, nad oedd cyllid ar gael ar hyn o bryd. Fodd bynnag, gan ystyried trafodaeth y Pwyllgor, un opsiwn posibl fyddai cael rhaglen ailddatblygu dreigl o 3/5 mlynedd, y gallai'r Fforwm ei hystyried.

- Mewn ymateb i gwestiwn ynghylch cyllid allanol trwy grantiau ac ati, dywedodd y Pennaeth Hamdden er nad oedd grantiau allanol uniongyrchol ar gael, y gallai fod cyfle i'r Awdurdod gael mynediad at ffynonellau grant eraill sydd ar gael i adrannau eraill y Cyngor, er enghraifft, yr adran addysg

neu'r gwasanaethau cymdeithasol. Fodd bynnag, byddai angen ystyried unrhyw gais o'r fath yn erbyn gofynion sy'n cystadlu yn y gwasanaethau hynny. Rhoddwyd sicrwydd i'r Pwyllgor bod yr holl ffynonellau cyllid allanol posibl yn cael eu harchwilio wrth i'r cyfleoedd godi.

- O ran defnydd masnachol posibl y ganolfan y tu allan i dymhorau ysgolion, cadarnhaodd y Pennaeth Hamdden fod gan yr opsiwn hwnnw botensial o ystyried lleoliad ardderchog Pentywyn ar yr arfordir ac y gellid ei archwilio ymhellach ar ôl i Brosiect Denu Twristiaid i Bentywyn gael ei agor. Yn yr un modd, roedd opsiynau mewn ardaloedd eraill ar gyfer darparu cyfleusterau hamdden awyr agored megis darparu tyrau dringo yng nghanol trefi. Am y rhesymau hynny, roedd yr Awdurdod yn archwilio'r uned sengl bresennol ar gyfer darparu addysg awyr agored ac yn bwriadu bod yn fwy hyblyg yn ei ddarpariaeth yn y dyfodol.

**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL dderbyn yr adroddiad.**

## 7. PROSIECT ATYNNU PENTWYN

Cafodd y Pwyllgor gyflwyniad PowerPoint ynghylch datblygiad Prosiect Denu Twristiaid i Bentywyn gwerth £6.7m a oedd yn cynnwys amserlenni cyflawni arfaethedig, opsiynau llywodraethu yn y dyfodol, rhagolygon ariannol lefel uchel, camau allweddol a chyfathrebu i'r dyfodol.

Rhoddwyd sylw i'r materion canlynol wrth drafod yr adroddiad:-

- Cadarnhawyd nad oedd y 10 lle parcio dros nos i gartrefi modur a ddarparwyd gan Gyngor Cymuned Pentywyn yn cynnwys lleoedd parcio i garafanau teithio.
- Mewn ymateb i gwestiwn ynghylch yr amcangyfrif o'r swm ychwanegol o £3.3m y flwyddyn y gallai'r datblygiad ei greu i'r gymuned leol, dywedwyd wrth y Pwyllgor fod yr amcangyfrif yn seiliedig ar gyfrifiad o niferoedd ymwelwyr Croeso Cymru a'i fod yn gysylltiedig â thair elfen. Roedd y cyntaf mewn perthynas â'r ffaith bod ymwelwyr yn gwario £23 y person bob dydd ar gyfartaledd ac amcangyfrifwyd y gallai'r atyniad ddenu 40,000 o ymwelwyr dydd ychwanegol pan fyddai'n gwbl weithredol. Yn ail, roedd ymwelwyr dros nos yn gwario £93 ar gyfartaledd ac amcangyfrifwyd y byddai 6,500 o arosiadau dros nos ychwanegol. Yn drydydd, byddai ymwelwyr dydd sy'n aros yn hirach yn yr ardal yn gwario £3-£5 y person yn ychwanegol ar luniaeth ac ati. Yn ogystal, roedd effaith ehangach twristiaeth; byddai lluosydd o 1.5 i 1 am bob punt a wariwyd yn cael ei ailgylchredeg yn y gymuned.
- Mewn ymateb i gwestiwn ynghylch y potensial i gysylltu'r ganolfan ddenu â'r cyfleusterau yn y Ganolfan Addysg Awyr Agored, cadarnhaodd y Pennaeth Hamdden fod yr opsiwn hwnnw'n cael ei archwilio yn arbennig o ran misoedd prysur yr haf;
- Cyfeiriwyd at y Trefniant Rheoli ar y Cyd arfaethedig gyda Chyngor Cymuned Pentywyn. Cadarnhawyd y byddai unrhyw incwm dros ben a gynhyrchir gan y ganolfan yn cael ei neilltuo ar gyfer adfywio Pentywyn. Pe bai'r cytundeb hwnnw'n dod i ben, byddai unrhyw arian sy'n weddill yn cael ei rannu rhwng y Cyngor Sir a'r Cyngor Cymuned pro rata yn ôl lefel buddsoddiad pob parti.

- Cyfeiriwyd at drefniadau rheoli'r hostel yn y dyfodol ac a fyddai'n bosibl iddi gael ei defnyddio at ddibenion eraill, er enghraifft, at ddibenion addysgol trwy ddysgu pobl sut i weithredu sefydliadau arlwyo.

  Cadarnhaodd y Pennaeth Hamdden fod defnyddio'r ganolfan at ddibenion eraill wedi cael ei archwilio, er enghraifft, darparu llety ar gyfer y Ganolfan Addysg Awyr Agored ond gallai hynny ddod yn ddarpariaeth addysgol bron wedi hynny, a oedd yn swyddogaeth statudol. Roedd defnyddiau eraill yn cynnwys darparu mannau seibiant ar gyfer gofal cymdeithasol a thwristiaeth ac ati. Fodd bynnag, roedd un o'r materion mewn perthynas â sut y bydd y ganolfan yn cael ei gweithredu yn ymwneud â'r hyn y gallai'r Cyngor, fel awdurdod lleol, ei wneud ei hun neu fel rhan o Drefniant Rheoli ar y Cyd gyda'r Cyngor Cymuned, a gofynnwyd am eglurder cyfreithiol ynghylch yr agwedd honno.

  O ran trefniadau rheoli'r hostel yn y dyfodol, roedd trafodaethau'n parhau o ran a fydd yn cael ei rheoli'n fewnol neu drwy drydydd parti a byddai'r Cyngor yn cynnal ymarfer marchnata i brofi faint o ddiddordeb sydd. Pe bai'r Cyngor yn gweithredu'r hostel ei hun, roedd potensial ar gyfer cynnydd mewn refeniw a risg. Pe bai'r opsiwn 3ydd parti yn cael ei ystyried, byddai angen i unrhyw gytundeb gynnwys ystyriaethau ariannol megis rhannu elw neu drefniadau rhentu. Byddai'r Cyngor yn cadw perchnogaeth ar yr ased, fel landlord, a byddai gan y gweithredwr, sef y tenantiaid, gyfrifoldebau gweithredol a chynnal a chadw. Roedd y ddau opsiwn wedi bod yn destun modelu ariannol ac roeddent yn hyfyw.

**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL dderbyn yr adroddiad.**

## 8. EITEMAU AR GYFER Y DYFODOL

Ystyriodd y Pwyllgor restr o eitemau i'w hystyried yn ei gyfarfod nesaf ar 2 Chwefror 2021.

**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL gytuno ar y rhestr o eitemau i'w hystyried yng nghyfarfod nesaf y Pwyllgor ar 2 Chwefror 2021.**

## 9. EGLURHAD AM BEIDIO Â CHYFLWYNO ADRODDIAD CRAFFU

Bu'r Pwyllgor yn ystyried yr eglurhad a roddwyd dros beidio â chyflwyno adroddiad craffu.

**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL dderbyn yr adroddiad nad oedd wedi'i gyflwyno.**

## 10. LLOFNODI YN GOFNOD CYWIR GOFNODION Y CYFARFOD A GYNHALIWYD AR:-

### 10.1. 16EG IONAWR, 2020

**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL lofnodi bod cofnodion cyfarfod y Pwyllgor a gynhaliwyd ar 16 Ionawr, 2020 yn gofnod cywir.**

### 10.2. 13EG TACHWEDD, 2020

**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL lofnodi bod cofnodion cyfarfod y Pwyllgor a gynhaliwyd ar 13 Tachwedd, 2020 yn gofnod cywir.**

| | |
|---|---|
| **CADEIRYDD** | **DYDDIAD** |